



Dydd Mercher 06 Mai 2026

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, 20 Mai 2026

Annwyl Gymrawd,

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) Cymdeithas Ddysgedig Cymru am 3:00pm ddydd Mercher 20 Mai 2026.

Bydd y Gymdeithas yn cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol hybrid. Bydd hyn yn galluogi Cymrodyr i fod yn bresennol yn y cnawd ym Mhrifysgol Caerdydd neu ymuno â ni ar-lein. Gallwch **gofrestru ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol** [yma](#).

Os ydych chi'n ymuno ar-lein ac angen unrhyw gymorth i sefydlu Zoom, cysylltwch â mi yn clerc@cddc.cymru.ac.uk.

I weld yr Agenda a'r Papurau ar gyfer y cyfarfod, cliciwch [yma](#).

Os na allwch ddod i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac yr hoffech bleidleisio drwy ddirprwy, cliciwch y ddolen isod i lenwi eich ffurflen procsi erbyn 4.00pm ddydd Llun 18 Mai 2026.

<https://www.smartsurvey.co.uk/s/XJLHIO/>

Yn gywir,

Dr Haydeé Martínez-Zavala
Clerc y Cyngor
clerc@cddc.cymru.ac.uk



CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol - Agenda

Dydd Mercher 20 Mai 2026, 15:00 - 17:00

0	Cadw Tŷ Olivia Harrison, Prif Weithredwr	llafar (5 munud)
1	Croeso a Chyflwyniad Yr Athro Hywel Thomas, Llywydd	llafar (5 munud)
2	Er Coffawdwriaeth Yr Athro Hywel Thomas, Llywydd	llafar (2 funud)
3	Ymddiheuriadau am absenoldeb Yr Athro Hywel Thomas, Llywydd	llafar (1 funud)
4	Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2025 Yr Athro Hywel Thomas, Llywydd	wedi'u hatodi (1 funud)
5	Uchafbwyntiau'r Flwyddyn Olivia Harrison, Prif Weithredwr	llafar (20 munud)
6	Anrhydeddau, Gwobrau a Dyfarniadau: Cyflawniadau'r Cymrodyr Yr Athro Hywel Thomas, Llywydd	CCB/2026/01 (5 munud)
7	Materion Llywodraethu: (a) Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2024/25; Penodi Archwilwyr Annibynnol ar gyfer 2025/26 Dr Sally Davies, Trysorydd	CCB/2026/02 (15 munud)
	(b) Swyddogion, Cyngor, Pwyllgorau a Grwpiau: Aelodau newydd a rhai sy'n ymadael Yr Athro Faron Moller, Ysgrifennydd Cyffredinol	CCB/2026/03 (15 munud)
8	Ethol Cymrodyr Newydd 2025/26 a Chroesawu a Chyflwyno'r Cymrodyr yn Ffurfiol Yr Athro Helen Fulton, Is-lywydd DCGC	CCB/2026/04 (20 munud)
9	Anerchiad Blynyddol y Llywydd Yr Athro Hywel Thomas, Llywydd	Llafar (15 munud)
10	Araith y Darpar Lywydd Yr Athro Fonesig Elan Closs Stephens, Darpar Lywydd	Llafar (10 munud)
11	Dyddiad y cyfarfod nesaf Dydd Mercher 19 Mai 2027	llafar (1 funud)



CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU THE LEARNED SOCIETY OF WALES

Cofnodion pymthegfed Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas

A gynhaliwyd yn Adeilad Hadyn Ellis a thrwy fideo-gynadledda
Ddydd Mercher, 21 Mai 2025

Yn bresennol:

Yr Athro Hywel Thomas	(Llywydd)
Yr Athro Robert Beynon	(Is-Llywydd)
Dr Sally Davies	(Trysorydd)
Yr Athro Faron Moller	(Ysgrifennydd Cyffredinol)

Yr Athro Alka Ahuja
Yr Athro Sashin Ahuja
Dr Padma Anagol
Dr Mahaboob Basha
Dr Zubeyde Bayram-Weston
Yr Athro David Boucher
Yr Athro Nigel Brown
Yr Athro Tony Brown
Yr Athro Simon Chandler-Wilde
Yr Athro Jing Chen
Yr Athro Anthony Cohn
Dr Amanda Collis
Yr Athro Simon Cox
Yr Athro Ceri Davies
Yr Athro Huw Davies
Yr Athro Siwan Davies
Yr Athro Indu Deglurkar
Yr Athro Iain Donnison
Yr Athro Philip Donoghue
Dr Arwyn Edwards
Dr Haydn Edwards
Yr Athro Dianne Edwards
Yr Athro Edwin Egede
Yr Athro Andrew Evans
Yr Athro Robert Evans
Yr Athro Christopher Evans
Yr Athro David Evans
Brian Ford-Lloyd
Yr Athro Gordon Foxall
Yr Athro Jane Francis
Yr Athro Alan Fraser
Yr Athro Jadwiga Furmaniak

Yr Athro David Gethin
Yr Athro Haley Gomez
Yr Athro Claire Gorrara
Yr Athro Manu Haddad
Yr Athro Simon Hands
Yr Athro Ann Heilmann
Yr Athro Chris Hopkins
Yr Athro Kerry Howell
Yr Athro Uzo Iwobi
Dr Layla Jader
Yr Athro Angela V John
Yr Athro Terry Jones
Yr Athro Huw Jones
Yr Athro Steven Jones
Yr Athro Karin Wahl-Jorgensen
Dr Kadiatu Kanneh-Mason
Yr Athro Deborah Kays
Yr Athro Robert Knipe
Yr Athro Yukun Lai
Yr Athro Arthur Lees
Yr Athro Yueng Lenn
Yr Athro John Lloyd
Yr Athro Pedr ap Llwyd
Yr Athro Marian Ludgate
Yr Athro Marco Marletta
Yr Athro John Mayberry
Yr Athro Angela Mihai
Yr Athro Kathryn Monk
Yr Athro Michael Morgan
Yr Athro John Moses
Yr Athro Alexander Movchan
Yr Athro Helen Nicholson
Yr Athro Perumal Nithiarasu

Yr Athro Rhiannon Owen
Dr Dafydd Owen
Menai Owen-Jones
Yr Athro Duc Truong Pham
Yr Athro John Pickett
Yr Athro Julian Preece
Yr Athro Eleri Pryse
Yr Athro Raluca Radulescu
Yr Athro David Ian Rabey
Yr Athro Paul Rees
Yr Athro Tom Rippeth
Yr Athro Gareth Roberts
Yr Athro Bernard Schutz
Yr Athro Hasmukh Shah
Dr Changjing Shang
Yr Athro Qiang Shen
Yr Athro Alan Shore
Yr Athro Dame Elan Closs
Stephens
Yr Athro Dame Jean Thomas
Yr Athro Terry Threadgold-
Taylor
Yr Athro Elizabeth Treasure
Yr Athro Meena Upadhyaya
Dr Peter Wakelin
Yr Athro Oliver Williams
The Reverend Yr Athro John
Tudno Williams
Yr Athro Stephen Williams
Sian Williams
Dr Yan Wu
Agnes Xavier-Phillips
**Roedd 94 o Gymrodyr yn
bresennol.**

Yn bresennol:

Joe Boyle	<i>(Swyddog Cyfathrebu)</i>
Dr Fiona Dakin	<i>(Pennaeth Polisi Cyhoeddus)</i>
Lynwen Davies	<i>(Dehonglydd)</i>
Menna Ellis	<i>(Cynorthwydd Digwyddiadau)</i>
Olivia Harrison	<i>(Prif Weithredwr)</i>
Dr Barbara Ibinarriaga Soltero	<i>(Rheolwr Rhaglen)</i>
Dr Haydee Martinez Zavala	<i>(Clerc)</i>
Alex Rees	<i>(Swyddog Gweithrediadau)</i>
Lisa Stillman	<i>(Swyddog Cyllid)</i>
Helen Willson	<i>(Pennaeth Ecwiti ac Ymgysylltu)</i>

Agorwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol am 3:00pm.**0. Materion Trefniadol**

Estynnodd y Llywydd, yr Athro Hywel Thomas, groeso i bawb i'r pymthegfed Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gofyn i'r Prif Weithredwr gyfarch y rhai a oedd yn bresennol. Rhoddodd y Prif Weithredwr amlinelliad o'r materion rhagarweiniol i'r rhai a oedd yn bresennol yn y cnawd ac ar-lein.

Dywedwyd wrth y rhai a oedd yn bresennol y byddai'r cyfarfod yn cael ei ffrydio i'r Gymrodyr a oedd yn bresennol ar-lein, ac y byddai'n cael ei recordio i ddibenion cymryd cofnodion.

Yn ogystal â hynny, rhoddodd y Prif Weithredwr gyfarwyddyd i'r rhai a oedd yn bresennol ynghylch sut i alluogi eu dyfeisiau cyfieithu ar y pryd a chymorth clyw.

01. Croeso a Chyflwyniad

Estynnodd y Llywydd groeso ffurfiol i bawb a oedd yn bresennol ym mhymthegfed Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas Ddysgedig Cymru a datgan bod y cyfarfod ar agor.

Estynnwyd croeso arbennig i Gymrodyr newydd a Chymrodyr cyfredol nad oeddent wedi gallu bod yn bresennol mewn CCB blaenorol.

Croesawodd y Llywydd Lynwen Davies, a oedd yn bresennol i gynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, ac atgoffa'r mynychwyr fod croeso iddynt siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg yn y CCB.

02. Cofio gyda pharch

Nododd y Llywydd fod y Cymrodwr canlynol wedi ein gadael:

- Yr Athro Sir Mansel Aylward, CB MD DSC FFPM FFOM FFPH FRCP FLSW
1942 - 2024
- Yr Athro Ronald Brown, FLSW
1935 – 2024
- Yr Athro Geraint Jenkins, DLitt FBA FLSW
1946 - 2025
- Yr Athro John Parkes, FRS FLSW
1950 - 2024
- Yr Athro Richard Rathbone, FRHistS FLSW
1942 - 2024

Cynhaliwyd moment o dawelwch er cof amdanynt.

03. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Nododd y Llywydd fod 13 ymddiheuriad wedi dod i law, gan gynnwys un gan Islywydd CDGC Yn ogystal â hynny, roedd 16 o Gymrodwr wedi cofrestru i fod yn bresennol drwy Ddirprwy.

Mae'r holl ymddiheuriadau wedi'u cofnodi isod:

Ymddiheuriadau

Yr Athro William Housley	Yr Athro Robin Williams	Yr Athro Paul Matthews
Yr Athro Sir Deian Hopkin	Yr Athro Helen Fulton	Yr Athro Jon Timmis
Yr Athro Kathryn Monk	Yr Athro Michael Davies	Yr Athro Michael
Yr Athro Yvonne	Maxine Penlington	Fitzpatrick
McDermott Rees	Dr Elaine Canning	Yr Athro Andrew Rowley

Yn bresennol drwy ddirprwy: 16 Gymrodwr

Yr Athro William Housley	Yr Athro Delyth James	Yr Athro Sheila Hunt
Yr Athro Sir Malcolm Evans	Yr Athro Geraint Jewell	Dr Sue Niebrzydowski
Yr Athro Michael Davies	Dr Cameron Durrant	Yr Athro Peter Atkinson
Yr Athro Maria Hinfelaar	Yr Athro Katherine Leni Oglesby	Yr Athro Keith Harding
Yr Athro Michael Reed	Yr Athro Roger King	Yr Athro Ralph A Griffiths
Yr Athro John Harper		

04. Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2024

DERBYNIODD, NODODD a CHYMERADWYODD yr Aelodau Gofnodion pedwerydd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar ddeg y Gymdeithas a gynhaliwyd ar 22 Mai 2024.

05. Cyflwyniad i'r Cymrawd er Anrhydedd, yr Athro Fonesig Jane Francis

Gofynnodd y Cadeirydd, a'r Llywydd, i'r Ysgrifennydd Cyffredinol, yr Athro Faron Moller, gyflwyno'r Cymrawd er Anrhydedd, yr Athro Fonesig Jane Francis:

Gellir gweld hyn [yma](#).

Jane Francis yw Cyfarwyddwr Arolwg Antarctig Prydain. Mae hi'n ymwneud â sefydliadau pegynol rhyngwladol, megis Cytundeb yr Antarctig a Bwrdd Pegynol Ewrop, ac mae ar sawl bwrdd cynghori rhaglenni pegynol cenedlaethol. Mae Jane Francis yn ddaearegydd yn dilyn hyfforddiant, gyda diddordebau ymchwil ym maes newid hinsawdd yn y gorffennol. Bu'n cynnal prosiectau ymchwil ym mhrifysgolion Southampton, Llundain, Leeds ac Adelaide, gan ddefnyddio ffosiliau a gwaddodion i bennu'r newid o hinsawdd tŷ gwydr i hinsawdd tŷ iâ yn y rhanbarthau pegynol dros y 100 miliwn o flynyddoedd diwethaf. Mae hi wedi cynnal dros 15 o deithiau gwyddonol i'r Arctig a'r Antarctica i chwilio am goedwigoedd ffosil a gwybodaeth am hinsoddau'r gorffennol.

Penodwyd yr Athro Fonesig Francis yn Fonesig Gadlywydd Urdd St Michael a St George (DCMG) i gydnabod gwasanaethau i wyddoniaeth begynol a diplomyddiaeth y DU. Dyfarnwyd Medal Begynol y DU iddi hefyd gan EM y Frenhines, Medal Noddwyr y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol a Gwobr Sefydliad Tywysog Albert II o Monaco 2022 am lechyd Planedol. Mae'r Athro Fonesig Francis yn Ganghellor Prifysgol Leeds, Cymrawd y Gymdeithas Frenhinol, a Llywydd y Gymdeithasfa Ddaearyddol Frenhinol.

Diolchodd yr Athro Moller i'r Athro Fonesig Francis am fod yn bresennol yn y cyfarfod a thraddodi araith ddiddorol, yna gofynnodd i'r Prif Weithredwr barhau â thrafodion y cyfarfod.

06. Prif Uchafbwyntiau'r Flwyddyn

Rhoddodd y Prif Weithredwr y trosolwg canlynol o weithgareddau'r Gymdeithas dros y flwyddyn ddiwethaf. Gellir gweld hyn.

Cymdeithas Ddysgedig Cymru: Strategaeth 2023 – 2028

Diben elusennol y Gymdeithas yw "hyrwyddo addysg, dysg, astudiaeth academiaidd a gwybodaeth i gyfrannu at ddatblygiad gwyddonol, diwylliannol, cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yng Nghymru a thu hwnt ". Y genhadaeth yn y strategaeth 5 mlynedd gyfredol yw cyflawni'r amcan elusennol hwnnw drwy harneisio arbenigedd, profiad a chysylltiadau amlddisgyblaethol ein Cymrodoriaeth i hyrwyddo a datblygu cymuned ymchwil ac arloesi Cymru, ac i gefnogi'r defnydd o ymchwil ragorol ac amrywiol i ddatrys yr heriau o flaen Cymru ac o flaen y byd.

Ceir pedwar amcan strategol er mwyn cyflawni hyn:

1. Cyfrannu at Ddatrysiadau Polisi Pwysig drwy roi Cyngor annibynnol a Hwyluso Cyfnewid Gwybodaeth

Eleni, mae'r Gymdeithas wedi bod yn cynnal fformat newydd poblogaidd ar gyfer ei gwaith polisi, ar ffurf byrddau crwn arbenigol. Mae'r rhain wedi'u seilio ar bwnc a nodwyd fel maes o ddiddordeb i lunwyr polisi ac mae'r Gymdeithas yn cynnull Cymrodyr sydd ag arbenigedd yn y maes â llunwyr polisi allweddol, i drafod y pwnc a chynhyrchu taflenni ffeithiau. Mae'r Gymdeithas yn dethol y rhai sy'n bresennol yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi cyngor annibynnol ac amlddisgyblaethol gan arbenigwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd.

Mae'r Gymdeithas yn parhau i fod yn rym sy'n dod â phobl ynghyd i gynnal trafodaeth. Er enghraifft, wrth weithio gyda Llywodraeth Cymru ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru. Yn ogystal â hynny, cynhaliodd y Gymdeithas gystadleuaeth 'Draethawd Tri Munud' yn yr Eisteddfod eleni ar gyfer Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Bu'r digwyddiad mor lwyddiannus fel y bydd y Gymdeithas yn ei gynnal eto'r flwyddyn nesaf.

Elfen arall o waith polisi Cymdeithas Ddysgedig Cymru yw cefnogi Astudiaethau Cymru - ymchwil am Gymru ac er budd Cymru. Unwaith eto, defnyddiodd y Gymdeithas ei grym i ddod â'r ymchwilwyr a'r rhanddeiliaid allweddol, fel Medr a Gwasg Prifysgol Cymru, a llawer o'i Gymrodyr, ynghyd i lunio'r achos o blaid ymchwil ac arloesi sydd o dan faner Astudiaethau Cymru.

Yn ogystal â'i byrddau crwn polisi ei hun, parhaodd y Gymdeithas i gydweithio ag eraill i harneisio arbenigedd y Gymrodoriaeth i gynhyrchu cyngor dibynadwy ac annibynnol er mwyn i lunwyr polisi fynd i'r afael â heriau. Er enghraifft, yr adroddiad ar werth

graddau Celfyddydau a Dyniaethau, a luniwyd mewn cydweithrediad â'r Brifysgol Agored yng Nghymru.

Yn olaf, parhaodd y Gymdeithas i ddatblygu ei gwaith gyda'r academïau cenedlaethol eraill, yn enwedig ei sefydliadau mwyaf cyfatebol yn yr Alban ac Iwerddon drwy Gynghrair yr Academïau Celtaidd.

2. Creu Amgylchedd sy'n Cefnogi Arbenigwyr Cymru - yn y Presennol a'r Dyfodol

Ail flaenoriaeth y Gymdeithas yw creu amgylchedd sy'n cefnogi arbenigwyr presennol a darpar arbenigwyr Cymru.

Yn rhan o hyn, mae'r Gymdeithas wedi cynyddu ei phortffolio grantiau, gyda phedair categori bellach ar gael ar gyfer ei grantiau gweithdai ymchwil. Pwrpas y rhain yw annog ymchwiliad cydweithredol i gynigion ymchwil sydd yng nghyfnod cynnar eu datblygiad. Cafwyd galw digynsail eleni, gan olygu bod y Gymdeithas wedi defnyddio'r swm bach o £7k a danwariwyd ganddi y llynedd i gynyddu cyfanswm y pot i £28k, ac ariannu 26 o weithdai yn sgil hynny.

Drwy'r grantiau hyn, mae'r Gymdeithas wedi cefnogi ymchwil mewn amrywiaeth anhygoel o eang o feysydd, o fanciau bwyd i belydrau cosmig, ac o Addysg Entrepreneuriaidd wedi'i Hysgogi gan y Gymuned i fynediad ffoaduriaid at bresgripsiynau cymdeithasol.

Mae'r Gymdeithas hefyd wedi cyflwyno dull newydd er mwyn iddi gefnogi mwy o'r digwyddiadau a gynhelir gan y Cymrodwr. Mae Cymorth Digwyddiadau FLSW yn cynnig cymorth ariannol, yn ogystal â chymorth hyrwyddo a chymorth o fath arall er mwyn helpu i godi proffil Cymrodwr a'r Gymdeithas mewn gwaith sy'n cyd-fynd â'i strategaeth. Eleni, cefnogwyd un digwyddiad ar ddeg.

Ffordd arall a ddefnyddir gan y Gymdeithas i gefnogi ymchwilwyr yw eu dathlu. Y ffordd fwyaf amlwg o wneud hyn yw drwy'r medalau a ddyfernir i ymchwilwyr rhagorol bob blwyddyn. Nid oedd eleni yn eithriad, gyda medalau'n cael eu dyfarnu i 6 ymchwilydd rhagorol fis Hydref diwethaf.

Mae'r Gymdeithas wedi parhau i gynyddu'r hyn y mae'n ei gynnig a'i gefnogaeth i Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar, yn bennaf drwy ei Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar. Mae'r Rhwydwaith bellach yn cynnwys mil o ymchwilwyr gyrfa gynnar, gan gynnwys ymchwilwyr o bob un o naw Prifysgol Cymru, o sefydliadau eraill sy'n cyflogi ymchwilwyr fel busnesau, elusennau a'r sector cyhoeddus, ac ymchwilwyr annibynnol. Bwriedir i'r ymagwedd amlddisgyblaethol ar draws Cymru gyfan ychwanegu gwerth at rwydweithiau eraill o Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar, p'un a ydynt yn seiliedig ar ddisgyblaeth arbennig, neu wedi'u cynnal gan sefydliadau eraill fel yr Academi Brydeinig. Mae'r Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar yn cael ei gydnabod yn

gynyddol gan bartneriaid allweddol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a chyllidwyr y DU.

Cynhaliwyd Colocwium Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar 2024 ym Mangor fis Mehefin diwethaf. Daeth dros 100 o ymchwilwyr gyrfa gynnar o bob cwr o Gymru i gymryd rhan yn y digwyddiad cwbl ddwyieithog. Y thema oedd "Cymru Gysylltiedig", a ddewiswyd i adlewyrchu ymrwymiad y Gymdeithas i ddatblygu rhwydwaith ymchwil cydlynus a rhyngddisgyblaethol yng Nghymru, ac i gysylltu ymchwil yng Nghymru â pholisi ac ymarfer.

3. Datblygu Cymrodoriaeth Fwy Amrywiol a Gweithgar

Fel sy'n glir yn y datganiad cenhadaeth, mae'r Gymrodoriaeth wrth galon y Gymdeithas, ac yn allweddol er mwyn iddi gyflawni ei strategaeth. Diolchodd y Prif Weithredwr i lawer o Gymrodyr sydd wedi chwarae rhan bwysig wrth gyflawni'r strategaeth hon eleni, boed hynny drwy gadeirio un o weithdai'r Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar, drwy gyfrannu o'u harbenigedd at waith polisi ac ati.

Mae'r Gymdeithas wedi ymgysylltu â llawer mwy o'i Chymrodoriaeth eleni drwy gynnal derbyniadau i Gymrodyr ym Mhrifysgol De Cymru, Aberystwyth, Bangor, Wrecsam a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd lle cynhaliodd ei rhwydwaith cyntaf i Fenywod.

Mae'r Gymdeithas yn falch o weld bod 34% o'i Chymrodyr newydd eleni yn fenywod, ond gwyddom y dylid gwella hyn eto. Cynhaliwyd peilot o gyfarfod Rhwydwaith Menywod fel rhan o'r flaenoriaeth strategol i annog Cymrodyr o grwpiau tangynrychioledig, a byddwn yn penderfynu, ar y cyd â'n Cymrodyr, sut i gefnogi ddatblygu'r rhwydwaith hwn yn y flwyddyn sydd i ddod.

Ymrwymiad arall y Gymdeithas i gynyddu amrywiaeth y Gymrodoriaeth oedd cynyddu nifer y bobl o gefndiroedd lleiafrifol ethnig. Mae'r Gymdeithas yn falch o ddweud ei bod wedi gwella, gyda 23% o'r Cymrodyr newydd o gefndir lleiafrifol ethnig, ond mae lle i wneud mwy. Gan hyn, mae'r Gymdeithas yn falch o fod yn cefnogi Menter Athrawon o Leiafrifoedd Ethnig yng Nghymru, a lanswyd yn ddiweddar yn y Senedd.

Atgoffwyd y Cymrodyr y gallant hwythau gefnogi'r flaenoriaeth strategol hon i gynyddu amrywiaeth y Gymrodoriaeth drwy enwebu. Gall unrhyw Gymrawd enwebu, gan gynnwys Cymrodyr newydd, ac anogwyd pawb a oedd yn bresennol i wneud hynny.

4. Datblygu ein Sefydliad

Mae'r Gymdeithas wedi gwneud llawer o waith yn adolygu ei pholisïau a'i phroffil er mwyn bod mor groesawgar a chynhwysol ag sy'n bosibl. Gobeithiai'r Prif Weithredwr fod y Cymrodyr wedi gweld y gwahaniaeth ar y wefan ac mewn dulliau eraill o gyfathrebu. Yn arbennig, mae'r Gymdeithas wrth ei bodd fod mwy o Gymrodyr yn

penderfynu cymryd rhan yng ngwaith y Gymdeithas yn sgil hyn, e.e. yn y Cyngor ac ar y Pwyllgorau.

O ganlyniad i'r cynnydd mewn incwm y llynedd, mae'r Gymdeithas wedi canolbwyntio ar ddiweddarau a phroffesiynoli ei swyddogaeth gyllid eleni, a chyda chefnogaeth y Pwyllgor Cyllid, mae hi wedi bod yn symud tuag at wneud defnydd gwell o fuddsoddiadau a chynllunio i fod yn gynaliadwy am y tymor hwy. Yn olaf, gyda'r tîm o un ar ddeg o staff oll yn eu swyddi eleni, mae'r Gymdeithas yn buddsoddi i ddatblygu staff. Diolchodd y Prif Weithredwr i holl aelodau'r tîm.

Daeth y Prif Weithredwr â'r cyflwyniad i ben, ac agorodd y cyfarfod i unrhyw gwestiynau.

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol gan y rhai a oedd yn bresennol:

- Wrth edrych ar-lein, roedd Cymrawd wedi sylwi bod y grantiau gweithdy wedi'u rhannu yn ôl disgyblaeth, heb unrhyw opsiwn rhyngddisgyblaethol. Gofynnodd a oedd y Gymdeithas yn ystyried hynny ar gyfer y dyfodol.
 - Ymatebodd y Prif Weithredwr drwy ddweud bod y grantiau wedi'u cynllunio'n wreiddiol i dargedu disgyblaethau wedi'u tanariannu, sef y Dyniaethau, y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol ac Astudiaethau Cymru. Gan fod y disgyblaethau hyn bellach wedi tyfu, awgrymodd y Prif Weithredwr y gellir dyrannu mwy o gyllid i feysydd eraill. Mae'r grantiau'n cael eu hadolygu dros yr haf, i'w lansio yn yr hydref. Bydd y Gymdeithas felly'n rhoi ystyriaeth i hyn.

07. Anrhydeddau, Gwobrau a Dyfarniadau: Cyflawniadau'r Cymrodyr

Diolchodd y Llywydd i'r Prif Weithredwr a'r tîm am eu gwaith hyd yma.

Cyn symud ymlaen â'r eitem nesaf, nododd y Llywydd y bydd y medalau'n cael eu gohirio yn 2025/26 tra bo'r Gymdeithas yn chwilio am gyllid i lansio medalau ychwanegol y flwyddyn nesaf. Yn lle cynnal y Seremoni Fedalau yn yr hydref, cynhelir dathliad i nodi pymtheng mlynedd ers sefydlu'r Gymdeithas.

Cyflwynodd y Llywydd bapur **AGM/2025/02**, sef yr anrhydeddau a'r dyfarniadau y mae Cymrodyr wedi'u derbyn yn y 12 mis diwethaf (y mae'r Gymdeithas yn gwybod amdanynt). Nododd ei fod yn rhyfeddu at ehangder cyflawniadau a llwyddiannau'r Gymrodoriaeth bob blwyddyn, a bod gweithio gyda grŵp mor arbennig o unigolion yn destun balchder iddo. Llongyfarchodd y Llywydd bob Cymrawd a restrwyd.

Ceir hyd i restr lawn yr Anrhydeddau, y Gwobrau a'r Dyfarniadau ar y papur.

08. Cyflwyniad i Gymrawd Er Anrhydedd, Dr Kadiatu Kanneh-Mason

Gofynnodd y Llywydd i Is-lywydd STEMM, yr Athro Robert Beynon, gyflwyno'r Cymrawd Er Anrhydedd, Dr Kadiatu Kanneh-Mason:

Gellir gweld hyn [yma](#).

Mae Dr Kanneh-Mason wedi cael effaith drawsnewidiol ar werthfawrogiad pobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig, a'r cyhoedd yn gyffredinol, o gerddoriaeth glasur, a'u diddordeb yn hynny. Mae hi, a'i theulu anhygoel, wedi ennill calonnau llawer o bobl. Mae hi'n fodel rôl anhygoel am sawl rheswm.

Mae'r penderfyniad i'w hethol i Gymdeithas Ddysgedig Cymru yn cadarnhau ymrwymiad y Gymdeithas i sicrhau'r safonau addysgol uchaf ac i ragoriaeth mewn cerddoriaeth, yn enwedig mewn cyfnod pan fo cerddoriaeth ac addysg gerddorol o fel petai dan warchae.

Ni restrodd yr Athro Beynon ei holl ddyfarniadau a chydnabyddiaethau, gan fod gormod ohonynt i'w cynnwys yma, ond gellir eu gweld yn ei bywgraffiad ar dudalennau gwe'r Gymdeithas. Fel enghreifftiau, fodd bynnag, mae ei llyfr "The House of Music" wedi ennill sawl gwobr, gan gynnwys Gwobr Oes JM Barrie a Gwobr Cerddor Nodedig Gymdeithas Annibynnol y Cerddorion. Ceir llawer mwy, gan gynnwys ei Chymrodoriaeth er Anrhydedd â'r Academi Gerddoriaeth Frenhinol.

Diolchodd yr Athro Beynon i Dr Kadiatu Kanneh-Mason am fod yn bresennol yn y cyfarfod a thraddodi araith mor ysbrydoledig, yna gofyn i'r Trysorydd i barhau â thrafodion y cyfarfod.

09. Materion sy'n ymwneud â Llywodraethu:

(a) Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2023/24; Penodi Archwilwyr Annibynnol

Cyflwynodd y Trysorydd, Dr Sally Davies, Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y Gymdeithas ar gyfer y cyfnod 01 Awst 2023 i 31 Gorffennaf 2024. Gellir gweld yr adroddiad ar wefan y Gymdeithas [yma](#) ac mae copïau caled ar gael i Gymrodyr ar gais.

Datblygiadau Ariannol Allweddol yn 2023/24

Manylion Incwm

Nododd y Trysorydd:

Yn 2023/24, roedd incwm y Gymdeithas yn £639,365 (cynnydd o gymharu â £548,871 y flwyddyn flaenorol).

Daeth y Gymdeithas yn elusen fawr yn y flwyddyn 2022/23. Gan hynny, mae'r cwmni cyfrifyddu a ddewiswyd y llynedd i fynd drwy'r gofynion ychwanegol yn gysylltiedig â statws elusen fawr wedi ein helpu i wella prosesau a rheolaethau ariannol.

Mae'r Gymdeithas yn parhau i fod yn hynod ddiolchgar i holl Brifysgolion Cymru a ddarparodd grantiau a mathau eraill o gymorth. Yn ogystal â hyn, diolchodd y Trysorydd yn ddiffuant i'r holl Gymrodyr am eu cyfraniad drwy dalu tanysgrifiadau, am roi o'u hamser, a hefyd am roddion ychwanegol.

Atgoffwyd y cymrodyr mai rhodd elusennol yw tanysgrifiadau, nid ffi aelodaeth. Gan hynny, anogwyd yr holl Gymrodyr cymwys i hawlio Rhodd Cymorth gan fod hynny'n ychwanegu 25% at werth y tanysgrifiad i'r Gymdeithas, heb unrhyw gost ychwanegol.

Manylion Gwariant a Chronfeydd Wrth Gefn

Nododd y Trysorydd:

Cyfanswm y gwariant eleni oedd £645,324.

Adroddodd y Gymdeithas ddiffyg o £5,959 (cyn elw ar fuddsoddiadau). Ar ôl enillion ar fuddsoddiadau (£12,765) y gwahaniaeth net yn y cronfeydd o 2022/23 i 2023/24 oedd cynnydd bach o bron i £7000. Mae'r arian hwn eisoes wedi'i ddefnyddio yn 2024 i dalu am grantiau bach ychwanegol lle'r oedd y Gymdeithas wedi derbyn nifer eithriadol o geisiadau addas.

Mae'r Gymdeithas yn parhau i ddal cronfeydd wrth gefn digonol i fodloni'r polisi cronfeydd wrth gefn, ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol roedd gan y Gymdeithas £447,485 yn ei cronfeydd wrth gefn rhydd.

Cedwir dros hanner y cronfeydd wrth gefn i dalu am o leiaf chwe mis o'n costau craidd (£267,725), yn unol â'r argymhellion ar gyfer Elusen a'r hyn a gytunwyd gan y Pwyllgor Cyllid. Mae'r gweddill wedi'i ddynodi'n Gronfa Buddsoddi Strategol y Gymdeithas. Caiff y defnydd o'r Gronfa honno ei adolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Cyllid a'r Cyngor.

Dechreuodd y Pwyllgor Cyllid adolygiad o'i gronfeydd wrth gefn a'i fuddsoddiadau. Y cam cyntaf fu tynnu ein harian o gyfrifon cynilo banc ac agor Llwyfan Buddsoddi CAF newydd.

Yn ogystal â hynny, dywedodd y Trysorydd:

- fod y Gymdeithas yn eithriadol o ddiolchgar am y gymynrodd sylweddol a gafwyd gan yr Athro Robin Okey yn gynharach eleni, ac anogodd y Gymrodyr i ystyried gadael rhodd i'r Gymdeithas yn eu hewyllys.
- Mae'r Gymdeithas yn chwilio am noddwyr ar gyfer gwobrau a digwyddiadau proffil uchel y Gymdeithas, sef y medalau a'r cinio blynyddol.

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol

Gofynnodd y Trysorydd a oedd gan y Cymrodyr gwestiynau ynghylch yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol. Ni ofynnwyd yr un cwestiwn.

Penderfynodd y Cymrodyr fabwysiadu Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y Gymdeithas 2023 - 2024.

Archwiliwr Ariannol Annibynnol

Mae Advantage Accountancy & Advisory wedi adolygu cyfrifon y Gymdeithas ac yn falch o allu ein hysbysu nad oedd unrhyw broblemau na meysydd a oedd yn destun pryder. Gofynnodd y Trysorydd a oedd gan y Cymrodyr unrhyw gwestiynau ynghylch yr Archwiliwr Ariannol Annibynnol. Ni ofynnwyd yr un cwestiwn.

Penderfynodd y Cymrodyr gymeradwyo Advantage Accountancy & Advisory yn archwilwyr annibynnol y Gymdeithas ar gyfer 2024/25

Daeth y Trysorydd â'r cyflwyniad i ben a gofyn i'r Ysgrifennydd Cyffredinol, yr Athro Faron Moller, i gyflwyno'r eitem nesaf ar yr agenda.

(b) Swyddogion, Y Cyngor a'r Pwyllgorau: Aelodau newydd a rhai sy'n gadael

Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol **AGM/2025/04** er mwyn bodloni gofynion cyfansoddiadol y Gymdeithas a hysbysu'r Cymrodyr ynghylch y canlynol:

- Offerynnau Llywodraethu'r Gymdeithas (Siarter Frenhinol, Is-ddeddfau, a Rheoliadau),
- Manylion am aelodaeth holl Bwyllgorau Cymdeithas Ddysgedig Cymru, gan gynnwys y Cyngor
- Canlyniad Etholiad Aelodau'r Cyngor a'r Pwyllgorau 2025

O ran yr etholiad, tynnodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol sylw at yr ymateb gwych a dderbyniwyd i'r alwad am geisiadau. Roedd 35 o swyddi gwag ar gyfer 2025/26 a 51 o geisiadau wedi dod i law. Mae'r diddordeb cryf hwn yn arwydd clar o Gymdeithas sy'n ffynnu, un sy'n ymgysylltu'n wirioneddol ac wedi ymroi i lywio ein cyfeiriad.

Er bod y nifer fawr o geisiadau yn golygu nad oedd pawb a fynegodd ddiddordeb wedi gallu ymuno â'r Cyngor na'r Pwyllgorau, mae staff y Gymdeithas wedi mynd ati'n rhagweithiol i gysylltu â'r rhai na chawsant eu hethol er mwyn archwilio ffyrdd eraill o ymgysylltu mewn modd ystyrlon.

Mae'r dull rhagweithiol hwn yn adlewyrchu'r ymrwymiad parhaus i gynhwysiant ac i gynnig cyfleoedd lluosog i Gymrodyr gymryd rhan.

Gwaith y Cyngor a'r Pwyllgorau 2024/25

Eleni, mae'r Cyngor wedi:

- Ymgorffori Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant ymhellach ym mhrosesau Cymrodoriaeth, gweithredol ac ariannol y Gymdeithas.
- Adolygu a diwygio Is-ddeddfau a Rheoliadau'r Gymdeithas.
- Adolygu Cofrestr Risg y Gymdeithas.
- Cymeradwyo cyllideb 2024/25 a chynllun gweithgareddau cysylltiedig.
- Cymeradwyo cyfrifon 2023/24.

Aelodau newydd a rhai sy'n ymadael

Enwodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol aelodau newydd y Cyngor, y Pwyllgorau a'r Grwpiau Cyngorol, a'r rhai a oedd yn ymadael:

Y Cyngor

Mae'r Athro Iwan Rhys Morus a'r Athro Terry Threadgold wedi cwblhau tymhorau eu swydd.

Etholodd y Gymrodoriaeth y naw ymgeisydd canlynol:

- Yr Athro Rachel Ashworth
- Yr Athro David Boucher
- Yr Athro Siwan Davies
- Yr Athro Sir Deian Hopkin
- Yr Athro Pedr ap Llwyd
- Yr Athro Mererid Puw Davies
- Yr Athro Raluca Radulescu
- Yr Athro Elizabeth Treasure
- Yr Athro Karin Wahl-Jorgensen

Dyma Aelodau'r Cyngor sy'n parhau â'u tymor yn eu swydd:

- Yr Athro Hywel Thomas
- Yr Athro Robert Beynon
- Yr Athro Helen Fulton
- Dr Sally Davies
- Yr Athro Faron Moller
- Yr Athro Qiang Shen
- Yr Athro John Tucker
- Yr Athro Meena Upadhyaya
- Yr Athro Kirsti Bohata
- Yr Athro Claire Gorrara
- Yr Athro Alma Harris
- Yr Athro Ambreena Manji

Mynegodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol ddiolch o galon i bawb a oedd wedi rhoi o'u hamser i wasanaethu ar y Cyngor.

Dyma'r rhestr lawn o aelodau'r Cyngor: [Cymrodyr Cyfredol - The Learned Society of Wales](#)

Y Pwyllgor Gwaith

Bydd ei aelodau'n aros yr un peth ar gyfer 2025/26:

- Yr Athro Hywel Thomas, Llywydd (Cadeirydd)
- Yr Athro Robert Beynon, Is-Llywydd (GTPMM)
- Yr Athro Helen Fulton, Is-Llywydd (CDGC)
- Dr Sally Davies, Trysorydd
- Yr Athro Faron Moller, Ysgrifennydd Cyffredinol
- Olivia Harrison, Prof Weithredwr
- Dr Haydeé Martínez-Zavala, Clerc

Pwyllgor Dibenion Cyffredinol

Bydd yr Athro Raluca Radulescu a'r Athro Loredana Polezzi yn gwasanaethu am ail dymor, tra bydd yr Athro Perumal Nithiarasu yn cwblhau ei dymor.

Dyma'r aelodau sydd newydd eu hethol i'r Pwyllgor:

- Yr Athro Sir Deian Hopkin
- Yr Athro Indu Deglurkar

- Yr Athro John Harwood

Dyma Aelodau'r Pwyllgor sy'n parhau â'u tymhorau swydd:

- Yr Athro Hywel Thomas (Cadeirydd)
- Maxine Penlington
- Yr Athro Raluca Radulescu
- Yr Athro Roger King
- Yr Athro Loredana Polezzi FLSW (Cyfetholwyd)

Pwyllgor Cyllid

Ail-etholwyd yr Athro Lisa Collins a'r Athro Mark Rees a byddant yn gwasanaethu ar eu hail dymor.

Dyma Aelodau eraill y Pwyllgor sy'n parhau â'u tymhorau swydd:

- Dr Sally Davies (Cadeirydd)
- Yr Athro Ann Heilmann
- Yr Athro John Tucker
- Yr Athro Dawn Knight

Yr aelod sydd newydd ei ethol yw'r Athro Chenfeng Li.

Pwyllgor Goruchwylio Llywodraethu

- Yr Athro Hywel Thomas (Cadeirydd)
- Yr Athro Robert Beynon
- Yr Athro Helen Fulton
- Dr Sally Davies
- Yr Athro Faron Moller
- Professor Qiang Shen
- Professor Claire Gorrara

Pwyllgor y Gymrodoriaeth

Dyma'r aelodau a ddechreuodd ar ôl CCB 2024 ac a fydd yn parhau â'u tymhorau swydd:

- Yr Athro Nigel Brown
- Yr Athro Hadyn Edwards
- Yr Athro Edwin Egede
- Yr Athro Helen Roberts

Mae'r Athro Shareen Doak yn ymddiswyddo tra bo'r Athro Terry Threadgold a Dr Sally Davies yn cwblhau eu tymhorau fel cynrychiolwyr y Cyngor ar y Pwyllgor hwn.

Cynrychiolwyr y Cyngor ar gyfer 2025/26 fydd yr Athro David Boucher a'r Athro Elizabeth Treasure.

Dyma Aelodau eraill y Pwyllgor sy'n parhau â'u tymhorau swydd:

- Yr Athro Robert Beynon FLSW, (Cyd-Gadeirydd)
- Yr Athro Helen Fulton FLSW, (Cyd-Gadeirydd)

Pwyllgor Adnoddau Dynol

Bydd yr Athro David Wyn Jones yn ymddiswyddo:

- Yr Athro Pedr ap Llwyd
- Yr Athro Graeme Garrard

Dyma Aelodau'r Pwyllgor sy'n parhau â'u tymhorau swydd:

- Yr Athro Faron Moller (Cadeirydd)
- Maxine Penlington
- Elin Rhys
- Professor Geoff Richards

Pwyllgor Chwilio am Lywydd

Nododd yr Ysgrifennydd Cyffredinol fod y Pwyllgor Chwilio am Lywydd newydd wedi dechrau ei chwilio am Lywydd nesaf y Gymdeithas gan y byddai'r Athro Hywel Thomas yn cwblhau ei ail dymor y flwyddyn nesaf. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys y Pwyllgor Llywodraethu, ac eithrio'r Llywydd, ond gan gynnwys y Prif Weithredwr.

Cenhadon

Ar gyfer 2025/26:

Prifysgol Aberystwyth

- Yr Athro Rhys Jones
- Yr Athro Rattan Yadav FLSW

Prifysgol Bangor

- Yr Athro Yueng-Djern Lenn
- Yr Athro Raluca Radulescu

Prifysgol Fetropolitan Caerdydd

- Yr Athro David Brooksbank
- Yr Athro Gary Beauchamp

Prifysgol Caerdydd

- Yr Athro William Housley

Prifysgol Abertawe

- Yr Athro Venkateswarlu Kanamarlapudi

Prifysgol De Cymru

- Yr Athro Louise Bright

Prifysgol Wrecsam Glyndŵr

- Yr Athro Richard Day

Hysbyswyd y Cymrodyr am swyddi Cenhadon a oedd yn wag ar hyn o bryd, ac fe'u hanogwyd i gysylltu â'r Clerc os oedd ganddynt ddiddordeb.

Pwyllgorau a Grwpiau Cyngori Eraill

Yn ogystal â'r Pwyllgorau Llywodraethu, ceir pwyllgorau a gweithgorau eraill, fel:

- Pwllgorau Craffu
- Pwllgor Medalau
- Grŵp Cyngori ar Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Grŵp Cyngori ar Ddatblygu Ymchwilwyr
- Grŵp Cyngori'r Gymraeg

Nododd yr Ysgrifennydd Cyffredinol y bydd llawer o aelodau'r Pwyllgor Craffu yn rhoi'r gorau iddi eleni. Mynegodd ddiolch iddynt am fod yn rhan hanfodol o'r Gymrodoriaeth.

Daeth yr Ysgrifennydd Cyffredinol â'r eitem hon i ben drwy longyfarch yr holl aelodau newydd eu hethol a diolch i'r rhai sy'n cwblhau eu tymhorau.

Ceir rhestr lawn o aelodau Pwyllgor yma:

<https://www.cymdeithasddysgedig.cymru/amdanon-ni/llywodraethu/pwyllgorau/>

10. Cyflwyniad i Gymrodyr er Anrhydedd

Aeth y Trysorydd ymlaen i'r eitem nesaf a chyflwyno dau Gymrawd er Anrhydedd nad oeddent wedi gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod. I gydnabod eu cyfraniadau eithriadol i'w meysydd, darllenodd y Trysorydd eu bywgraffiadau.

Y cyntaf yw'r Anrhydeddus Julia Gillard AC, cyn-wleidydd o Awstralia a wasanaethodd fel Prif Weinidog Awstralia ac arweinydd y Blaid Lafur o 2010 i 2013. Hi oedd dirprwy brif weinidog Awstralia yng ngweinyddiaeth Kevin Rudd o 2007 i 2010, y fenyw gyntaf a'r unig fenyw yn hanes Awstralia i ddal yr un o'r swyddi hyn. Gellir gweld hyn **yma**.

Yr ail yw'r Athro Edward Witten, sydd wedi gwneud cyfraniadau pwysig i ffiseg gyfoes, gan gynnwys damcaniaeth maes cwantwm uwchgymesur a thopolegol, damcaniaeth llinynnau, damcaniaeth M, damcaniaeth disgyrchiant cwantwm a damcaniaeth gwybodaeth gwantwm. Ef yw'r unig ffisegydd i dderbyn Medal Fields, sef y wobwr fathemategol sy'n cyfateb i Wobr Nobel. Gellir gweld hyn [yma](#).

11. Etholiad Cymrodyr Newydd 2024/25 a'r Croeso a'r Cyflwyniad Ffurfiol i'r Cymrodyr

Gofynnodd y Trysorydd i'r Is-lywydd ar gyfer GTPMM, yr Athro Robert Beynon, gyflwyno'r Cymrodyr a etholwyd yn 2025.

Cyn bwrw ymlaen, pwysleisiodd yr Athro Beynon fod enw da Cymru am ymchwil o safon uchel a bywyd dinesig ffyniannus, wedi'i adeiladu ar wybodaeth ac arbenigedd, yn cael ei gydnabod yn y Cymrodyr a oedd newydd eu hethol.

Mae'r Cymrodyr newydd yn cynnwys academyddion o brifysgolion ledled Cymru a'r DU, yn awduron, ymchwilwyr ac arweinwyr o fyd addysg uwch, a hefyd o fyd y gyfraith, meddygaeth, y cyfryngau a'r celfyddydau.

Cyflwynodd yr Athro Beynon yr holl Gymrodyr newydd eu hethol, wrth i'r Llywydd a'r Prif Weithredwr gyflwyno tystysgrifau i'r rhai a oedd yn bresennol (*nodir * i ddangos y Cymrodyr a oedd yn bresennol*)

Gymrodyr	
*Yr Athro Sashin Ahuja	*Yr Athro Yukun Lai
*Dr Padma Anagol	Yr Athro Caroline Lear
Dr Manon Antoniazzi	*Yr Athro Arthur Lees
Dr Sumina Azam	*Yr Athro John Lloyd
*Dr Mahaboob Basha	Yr Athro Rainald Löhner
*Dr Zubeyde Bayram-Weston	Yr Athro Anthony Mandal
Dr Shannu Bhatia	*Yr Athro Paul Matthews
*Yr Athro Simon Chandler-Wilde	*Yr Athro John Mayberry
*Yr Athro Jing Chen	Yr Athro Angela Mihai
*Yr Athro Nick Clifton	Yr Athro Emma Jane Milton
*Dr Amanda Collis	*Yr Athro Michael Morgan
*Yr Athro Huw Davies	*Yr Athro John Moses
*Yr Athro Philip Donoghue	Yr Athro Alexander Movchan
*Dr Arwyn Edwards	*Yr Athro Rhiannon Owen
*Yr Athro Michael Fitzpatrick	*Dr Dafydd Owen
*Yr Athro Gordon Foxall	*Menai Owen-Jones
Yr Athro Alan Fraser	Yr Athro Ken Peattie
*Yr Athro Jadwiga Furmaniak	*Yr Athro Tom Rippeth
Yr Athro Gwyn Gould	*Yr Athro Hasmukh Shah
Yr Athro Hugh Greenwell	*Dr Changjing Shang

*Yr Athro Chris Hopkins *Yr Athro Kerry Howell Yr Athro Delyth James Yr Athro Huw Jones Dr Lyn Jones Dr Rhodri Jones Yr Athro Steven Jones Yr Athro Terry Jones Yr Athro r William Jones *Yr Athro Deborah Kays	Yr Athro Jonathan Timmis *Dr Peter Wakelin Yr Athro Oliver Williams *Sïan Williams *Dr Yan Wu *Agnes Xavier-Phillips Gymrawd Er Anrhydedd *Yr Athro Jane Francis *Dr Kadiatu Kanneh-Mason
--	--

12. Darlith Flynyddol y Llywydd

Rhoddodd y Llywydd anerchiad i'r cyfarfod yn Gymraeg i ddechrau. Pwysleisiodd faint mor bleserus oedd siarad â phawb ar ddiwedd blwyddyn arall o gyfleoedd, heriau a newid. Ar ran y Gymdeithas, estynnodd groeso i'r holl Gymrodyr newydd, a diolch i'r Athro Fonesig Jane Francis a Dr Kadiatu Kanneh-Mason am gyflwyniadau a roddodd lawer o oleuni inni.

Mae pob Cymrawd yn cynrychioli rhagoriaeth yn ei faes, gan ddod ag ystod eang o brofiadau newydd i'r Gymdeithas. Mae bron i chwarter o Gymrodyr newydd eleni wedi dod o gefndiroedd lleiafrifol ethnig. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol i'r Gymdeithas lwyddo yn ei huchelgais i unioni'r diffyg cydbwysedd hanesyddol o fewn ei Chymrodoriaeth, sydd yn aruthrol o bwysig wrth i'r Gymdeithas barhau i weithio er mwyn gwella ei hamrywiaeth.

Anogodd yr holl Gymrodorion i gyfrannu at gryfhau ac amrywio'r Gymrodoriaeth, sydd eisoes yn nodedig.

Cydnabu'r Llywydd y bu'n flwyddyn heriol i lawer o Gymrodyr ac aelodau'r Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar sy'n gweithio yn y sector prifysgolion, yn sgil diswyddiadau a chau adrannau cyfan. Ers cryn amser, mae'r Gymdeithas wedi bod yn tynnu sylw at y ffaith bod ymchwil yng Nghymru yn cael ei thanariannu, ac yn cynnig atebion i benderfynwyr. Mae'n parhau i gyflwyno'r achos o blaid cynyddu cyllid y sector ymhellach, ac i eiriol dros gyfraniad hanfodol ymchwil i Gymru, yn y gorffennol a'r dyfodol.

Yn y cyd-destun heriol hwn, mae cefnogi'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr yn bwysicach nag erioed. Dechreuodd y Gymdeithas y flwyddyn gyda'i hail golocwiwm blynyddol ar gyfer Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar ym Mangor, ac ail-luniodd y Grŵp Cynghori Datblygu Ymchwilwyr i gynnwys ymchwilwyr ar ganol eu gyrfa ochr yn ochr ag ymchwilwyr gyrfa gynnar. Yr ymchwilwyr hyn yw dyfodol y sector ymchwil yng Nghymru. Gan hynny, diolchodd y Llywydd i'r rhai a oedd wedi darparu hyfforddiant a mentora drwy'r Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar, ac a roddodd arweiniad i helpu'r Grŵp Cynghori.

Y Seremoni Fedalau Flynyddol

Mae'r Seremoni Fedalau Flynyddol yn dangos y gorau o wybodaeth ac ymchwil yng Nghymru, drwy seremoni a gynhelir yn y Senedd. Mae enillwyr 2024 yn llysgenhadon gwych ar gyfer cenhadaeth y Gymdeithas, gan gwmpasu ystod eang o ymchwil flaengar. Tynnodd y Llywydd sylw at waith ac arbenigedd enillwyr 2024:

Medal Hugh Owen

- Professor Gary Beauchamp

Medal Frances Hoggan

- Professor Susan Baker

Medal Menelaus

- Professor Stuart Taylor

Medalau Dillwyn

- Dr Alix Beeston
- Dr Laura Richardson
- Dr Roxanna Dehaghani

Cynlluniau Grantiau Rhwydweithio

Cefnogodd y Gymdeithas hefyd ymchwil effeithiol ei hun drwy ei chynlluniau grant rhwydweithio. Mae'r cyllid hwn yn caniatáu i arbenigwyr gyrraedd cymunedau ledled Cymru, o entrepreneuriaeth gymunedol yn Llanelli, i gefnogi llesiant meddyliol defnyddwyr gwasanaeth banciau bwyd. Eleni, ychwanegodd y Gymdeithas faes newydd at ei chynllun grantiau ar gyfer ymchwil i Heddwch, mewn cydweithrediad â'r Academi Heddwch, ac ariannodd brosiectau â chyrhaeddiad rhyngwladol, gan gynnwys partneriaid yn Myanmar, Gwlad Thai ac Uganda.

Cynghrair yr Academiâu Celtaidd

Mae'r Gymdeithas ei hun hefyd yn gynyddol ryngwladol ei hagwedd. Mae hi wedi dwysau'r cysylltiadau ag Academi Frenhinol Iwerddon a Chymdeithas Frenhinol Caeredin ymhellach drwy Gynghrair yr Academiâu Celtaidd, gan weithio tuag at ffurfioli cytundeb a fydd yn fodd i bob un o'r tri sefydliad gynyddu eu huchelgeisiau i gydweithio. Eleni hefyd gwelwyd Llywydd newydd a strategaeth newydd ar gyfer Ffederasiwn Ewropeaidd Academiâu'r Gwyddorau a'r Dyniaethau (ALLEA). Gwnaethom lofnodi'r datganiad diweddar gan ALLEA yn mynegi pryder difrifol ynghylch y bygythiadau cynyddol i ryddid academiaidd yn yr Unol Daleithiau. Mae ein perthynas ag Ewrop yn bwysicach nag erioed, felly rydym yn bwriadu dyfnhau ein hymgysylltiad â'r Comisiwn Ewropeaidd a'r gymuned ymchwil Ewropeaidd drwy ALLEA yn y flwyddyn nesaf. Rydym hefyd wedi cefnogi arddangosfa o ymchwil Cymru ym Mrwsel, a chynnal gweminar ar gyfer ymchwilwyr gyrfa gynnwys sy'n egluro cyfleoedd o fewn Horizon Ewrop.

Nododd y Llywydd, mewn blwyddyn arall o her a chyferbyniad, nad yw'r angen am feddwl beirniadol, a thystiolaeth gadarn a dibynadwy erioed wedi bod mor glir. Mae'r Gymdeithas yn parhau i ddod â Chymrodyr ynghyd â phenderfynwyr i feddwl am

destunau beirniadol gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, arloesi mewn technoleg feddygol, ac anabledd, ac mae'n bwriadu parhau i ehangu'r gwaith hwn yn y flwyddyn nesaf. Gofynnodd y Llywydd i'r holl Gymrodyr helpu'r Gymdeithas i wneud y defnydd gorau o'r arbenigedd aruthrol y mae'r Gymrodoriaeth yn ei gynnig er budd Cymru, y byd ehangach, a'r dyfodol.

Mynegodd y Llywydd ei bod hi'n ffrainc cael gweithio ochr yn ochr ag aelodau'r Cyngor. Yn benodol, rhoddodd ddiolch arbennig i'r canlynol:

- Yr Athro Iwan Morus sy'n cwblhau ei dymor ar y Cyngor.
- Yr Athro Alan Shore, yr Athro Terry Threadgold, ac Alma Harris sydd wedi cwblhau eu tymhorau fel Cadeiryddion ar dri Grŵp Cyngori.
- Unwaith eto, i Terry Threadgold a fydd hefyd yn gadael y Cyngor ar ôl naw mlynedd.

Yn olaf, anerchodd y cyfarfod yn y Gymraeg eto i ddiolch yn fawr iawn i roddwyr y Gymdeithas am eu cefnogaeth barhaus, sef Mer a Phrifysgolion Cymru.

Yn ogystal â hynny, diolchodd i bob Cymrawd sydd wedi cyfrannu nid yn unig trwy roddion, ond hefyd drwy roi o'i amser.

13. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Nododd y Llywydd y byddai'r CCB nesaf yn cael ei gynnal ddydd Mercher 20 Mai 2026.

Daeth y Llywydd â CCB 2025 i ben yn ffurfiol.

Cofnodion wedi'u cymeradwyo gan y Cadeirydd, Yr Athro Hywel Thomas, ar 16 Gorffennaf 2025.



CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU THE LEARNED SOCIETY OF WALES

Anrhydeddau, Gwobrau a Dyfarniadau

Rhestr o Ddyfarniadau ac Anrhydeddau a roddwyd i'r Cymrodyr, Mai 2025 - Ebrill 2026

Nodyn: Lluniwyd y rhestr ganlynol o Fwletinâu'r Cymrodyr dros y flwyddyn ddiwethaf, ac mae'n bosibl nad yw'n gyflawn. Er mwyn sicrhau bod gennym yr wybodaeth fwyaf cywir a chyfredol, gofynnir ichi roi gwybod am unrhyw ddyfarniadau neu gydnabyddiaeth a gafwyd. Yn ogystal â hyn, sylwch fod yr wybodaeth wedi'i threfnu yn ôl y mis pan gyhoeddwyd y newyddion, yn hytrach na'r mis pan ddyfarnwyd y dyfarniad neu'r anrhydedd. Sylwch hefyd nad yw llyfrau a gyhoeddwyd na symiau bach o grantiau a ddyfarnwyd wedi'u cynnwys ar y rhestr.

Mai 2025

- Cafodd yr **Athro Rhiannon Owen FSLW** ei henwi'n Uwch Arweinydd Ymchwil gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.
- Cyhoeddwyd bywgraffiad yr **Athro Angela John FLSW** 'Behind the Scenes: The Dramatic Lives of Philip Burton', am yr ysgolfeistr fu'n meithrin ei ddisgybl Richard Jenkins, a fyddai'n datblygu'n ddiweddarach yn Richard Burton, seren y llwyfan a'r byd ffilm.
- Cafodd Yr **Athro Claire Gorrara FLSW** ei phenodi i fwrdd ymgynghorol Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC).
- Cafodd yr **Athro Roger Falconer FLSW** ei benodi i Bwyllgor Gwyddonol Rhyngwladol Academi Ymchwil Gwyddorau Amgylcheddol Tsieina.
- Derbyniodd yr **Athro Graham Hutchings FLSW** wobr anrhydeddus yr Armouers and Brasiers Company gan yr Academi Beirianeg Frenhinol ar gyfer 2025.
- Mae llyfr yr **Athro W. FLSW John Morgan** 'Cultural Cold Wars and UNESCO in the Twentieth Century' wedi cael ei enwebu i ennill Gwobr ASEES Wayne S. Vucinich, yn yr Unol Daleithiau.

Mehefin 2025

- Daeth yr **Athro Eleri Pryse FLSW** yn Gymrawd er Anrhydedd y Coleg Cymraeg am ei chyfraniad at addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg.
- Cafodd 'Voices on the Path' gan yr **Athro Andrew Green FLSW** ei gyhoeddi, sef hanes manwl cerdded yng Nghymru o'r cyfnod Mesolithig ymlaen.
- Derbyniodd yr **Athro Simon Chandler-Wilde** Fedal RWB Stephens gan y Sefydliad Acwsteg"am gyfraniadau rhagorol i ymchwil ac addysg acwsteg".
- Cafodd bywyd yr **Athro Huw Pryce FLSW** ei ddathlu wrth lansio'r llyfr newydd, 'Memory and Nation: Writing the History of Wales'.

Gorffennaf 2025

- Dyfarnwyd grant Ewropeaidd anrhydeddus o €3 miliwn i'r **Athro Raluca Radulescu FLSW** drwy Rwydwaith Hyfforddiant Doethurol Marie Skłodowska-Curie ar gyfer ei phrosiect 'EU ARTHURS: European Arthurs, Medieval to Modern'.
- Cafodd **Kellie Beirne FLSW**, Cyfarwyddwr Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ei henwi'n Gymrawd er Anrhydedd Prifysgol Caerdydd.
- Derbyniodd yr **Athro Pedr ap Llwyd FLSW** Ddoethuriaeth er Anrhydedd mewn Llên gan Brifysgol Bangor, ei hen goleg, am wneud gwybodaeth, diwylliant a threftadaeth yn fwy hygyrch i bobl ledled Cymru.
- Cafodd yr **Athro Jianzhong WuFLSW** ei enwi gan Brifysgol Cornell fel Athro Gwadd Mary Shepard B. Upson ar gyfer Peirianeg.
- Cafodd bywyd a gwaith yr **Athro Rob Beynon FLSW** ei gydnabod mewn sesiwn arbennig yn ystod cynhadledd y Gymdeithas Brydeinig Ymchwil Proteom yn Lerpwl.
- Cafodd yr **Athro Claire Gorrara FLSW** ei phenodi'n Ddirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd) ac yn Ddeon yr Ysgol Astudiaethau Uwch, ar gyfer Prifysgol Llundain.

Medi 2025

- Derbyniodd yr **Athro Bernard Schutz FLSW** Fedal Rumford y Gymdeithas Frenhinol i gydnabod yr ymchwil a gyflawnodd ar hyd ei oes i ffiseg ac astroffiseg, a'i gyfraniadau at addysg ffiseg.
- Cyhoeddwyd llyfr **Dr Aled Eurig FLSW**, 'Dafydd Elis-Thomas: Nation Builder' a archwiliai yrfa wleidyddol Dafydd Elis-Thomas o'i dechreuad pan gafodd ei ethol i San Steffan fel AS Plaid Cymru yn 1974 hyd at ei ymddeoliad o'r Senedd yng Nghaerdydd yn 2021.
- Daeth yr **Athro Graeme Garrard FLSW**, Athro Damcaniaeth Wleidyddol, Prifysgol Caerdydd, daeth yn Gymrawd Academi'r Gwyddorau Cymdeithasol.

Hydref 2025

- Roedd yr **Athro Hywel Thomas FLSW** yn un o 50 o arbenigwyr tramor a gafodd ei anrhydeddu â 'Gwobr Cyfeillgarwch' 2025 Tsieina mewn seremoni yn Beijing.
- Cafodd yr **Athro Amira Guirguis FLSW** ei phenodi'n Brif Wyddonydd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS), y gyntaf o Gymru i fod yn Brif Wyddonydd i'r Gymdeithas.
- Dyfarnwyd Medal a Darlith Isaac Newton i'r **Athro Syr Michael Berry HonFLSW** gan y Sefydliad Ffiseg i gydnabod ei 'gyfraniadau aruthrol ar draws ffiseg fathemategol a damcaniaethol mewn gyrfa sy'n ymestyn dros 60 mlynedd'.
- Cyhoeddwyd yr **Athro Medwin Hughes FLSW** fel Cadeirydd newydd Opera Cenedlaethol Cymru.
- Daeth **Dr Emma Yhnell FLSW**, daeth yn Gymrawd y Gymdeithas Fioleg Frenhinol.
- Daeth **Dr Charles Mynors FLSW**, daeth yn Gymrawd Academi'r Gwyddorau Cymdeithasol.

Rhagfyr 2025

- Derbyniodd **Menai Owen-Jones FLSW** [Wobr C-Suite yng Ngwobrau Busnes Menywod Clwb Busnes y Menywod](#). Roedd y gwobrau yn anrhydeddu menywod mewn swyddi gweithredol lefel uchaf o bob sector a diwydiant, ac yn dathlu eu llwyddiant a'u gweledigaeth.

Ionawr 2026

- Cafodd yr **Athro Meena Upadhyaya FLSW** ei henwi'n Fonesig am wasanaethau i gydlyniant cymunedol yng Nghymru ac i Eneteg Feddygol.
- Derbyniodd yr **Athro Julia Jones FLSW**, Athro Gwyddor Cadwraeth ym Mhrifysgol Bangor, MBE am ei gwasanaethau i'r amgylchedd.

Chwefror 2026

- Cafodd llyfr newydd yr **Athro John Loughlin**, [Human Dignity: Its Roots and Challenges in Western Thought](#) ei gyhoeddi, sy'n dadlau na ellir cynnal galwadau'r oes fodern am urddas dynol heb ymgysylltu o ddifrif â'r athroniaeth a'r moesau dyfnach sy'n sail i hynny'.
- Mae'r **Athro Ruth King** a'r **Athro Idris Eckley** ymhlith [Cymrodyr Sefydlu'r Academi newydd ar gyfer y Gwyddorau Mathemategol](#), ac mae'r **Athro Faron Moller** yn aelod o Bwyllgor Gwaith yr Academi honno.
- **Llongyfarchiadau** i **Dr Emma Yhnell** sydd wedi derbyn Prif Gymrodoriaeth AU Ymlaen.

Mawrth 2026

- Derbyniodd yr **Athro Laurence Williams** wobr cyflawniad oes gan y Sefydliad Niwclear am gyfraniadau at wella diogelwch niwclear; rhoddwyd sylw i'r stori yn ddiweddar [ar glawr Nuclear Future](#). Cafodd hefyd ei benodi'n gadeirydd panel cynghori diogelwch niwclear Asiantaeth Amgylchedd Genedlaethol Singapore, a dyfarnwyd [medal gwasanaeth cyhoeddus](#) iddo gan Arlywydd Singapore am ei wasanaethau i'r wlad.

Ebrill 2026

- Mae gan yr **Athro Iain Quinn FLSW** lyfr ar y gweill, [Cultural Dissonance: Brexit Reconsidered](#) (The Lutterworth Press/Boydell & Brewer) a bydd yn rhoi cyfres o sgyrsiau yn y flwyddyn sydd i ddod.



CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU THE LEARNED SOCIETY OF WALES

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol (1 Awst 2024 hyd 31 Gorffennaf 2025)

Yn ôl Is-ddeddfau a Rheoliadau'r Gymdeithas mae'n ofynnol cyflwyno ein cyfrifon archwiliedig a'n hadroddiad blynyddol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Gan hynny, gofynnir i'r Cymrodwr dderbyn yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol ar gyfer y cyfnod **1 Awst 2024 hyd 31 Gorffennaf 2025**.

Gellir lawrlwytho'r Adroddiad a'r Cyfrifon o wefan y Gymdeithas:

<https://www.cymdeithasddysgedig.cymru/amdanon-ni/llywodraethu/dogfennau-pwysig/>

Mae copïau caled ar gael ar gais.

Paratowyd y cyfrifon drafft gan Swyddog Cyllid a Chlerc y Gymdeithas, ac fe'u gwiriwyd gan gyfrifwyr o Advantage Accountancy & Advisory Ltd, yn unol a'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol i elusennau cofrestredig.

Cafodd y cyfrifon wedyn eu cyflwyno i Archwilydd Ariannol Annibynnol y Gymdeithas, Stephen John Bickerton FCCA o Advantage Accountancy & Advisory Ltd, i'w hystyried ym mis Ionawr 2026. Cynhaliodd Advantage Accountancy & Advisory Ltd ei archwiliad o dan adran 145 o Ddeddf Elusennau 2011. Drwy hyn, sicrhawyd bod y cyfrifon yn rhoi "darlun cywir a theg", yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

Nid oedd gan Advantage Accountancy & Advisory Ltd unrhyw bryderon am y cyfrifon, ac ni ddaethant ar draws unrhyw faterion eraill wrth archwilio y dylid tynnu sylw atynt yn yr adroddiad hwn.

Cymeradwywyd yr adroddiad a'r cyfrifon gan y Cyngor ar 18 Mawrth 2026. Fe'u llofnodwyd ar ran y Gymdeithas a'i Hymddiriedolwyr gan y Llywydd a'r Trysorydd, a'u cyflwyno wedyn i'r Comisiwn Elusennau.

Datblygiadau ariannol allweddol yn 2024/25

